

Cynllun Corfforaethol 2017-2022

Dogfen Cyflenwi Blynyddol



Mae'r llyfryn hwn yn nodi'r prosiectau allweddol a'r gweithgareddau y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn eu darparu dros y deuddeg mis nesaf – cyfnod sy'n gweld Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017 yn dod i ben, a Chynllun Corfforaethol newydd 2017 – 2022 yn cael ei ddatblygu gydag Aelodau newydd o'r Cyngor.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg, a gall fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

Arwyddbost Iaith

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch,
gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd
yn siarad Cymraeg neu Saesneg ffonio 01824
706291

If you need further information, please ask
someone you know who speaks English or Welsh to
telephone 01824 706291

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji,
proszę poprosić kogoś, kto mówi po angielsku lub
walijsku żeby zadzwonił pod numer 01824 706291

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو برائے مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے اپنے کسی واقف کار سے کہیں کہ
وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01824 70 6291 سے رابطہ کریں۔

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন
কাউকে অনুগ্রহ করে 01824 70 6291 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

Se você precisar de nova informação, por favor
pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r
inglês para telefonar 01824 706291

اذا كنت بحاجة الى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف
من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف 01824706291

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士
电话：01824706291

Tabl cynnwys

Cyflwyniad 3

**Ariannu gweddill Blwyddyn Calendr 2017 a'r Cynllun
Corfforaethol newydd 2017 - 2022** 6

Gweithgareddau parhaus Cynllun Corfforaethol 2012 - 2017

Blaenoriaeth 1: Datblygu'r economi leol7

Blaenoriaeth 2: Gwella perfformiad mewn addysg ac
ansawdd adeiladau ein hysgolion.....12

Blaenoriaeth 3: Gwella ein ffyrdd14

Blaenoriaeth 4: Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu
hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol
ag y bo modd16

Blaenoriaeth 5: Strydoedd glân a thaclus18

Blaenoriaeth 6: Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da 20

Blaenoriaeth 7: Moderneiddio'r cyngor i ddarparu arbedion
effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein
cwsmeriaid22

**Gweithgareddau wedi'u datblygu ar gyfer Cynllun
Corfforaethol 2017 - 2022**

Amcanion Lles.....24

Cyflwyniad

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2012 – 2017 bellach wedi dod i ben, a bydd etholiadau Cyngor Sir ym Mai yn arwain at dîm newydd o aelodau etholedig a fydd yn ffurfio Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017 – 2022. 2017 yw'r flwyddyn o drawsnewid.

Mae ymchwil helaeth ac ymgynghori wedi'i gynnal, sy'n cynnwys pob agwedd ar y Cyngor a'n cymunedau, i gynorthwyo datblygu blaenoriaethau newydd i'r Cyngor a fydd yn bodloni anghenion y cymunedau hynny. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud o dan faner "Sgwrs y Sir" a ddechreuodd yn ôl yn 2016.

Bydd ein Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2017 – 2022 yn cael ei gyhoeddi yn ystod hydref 2017, a byddwn yn cynnal Gweithdy Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Chynghorwyr Newydd i osod blaenoriaethau o fewn y Cynllun ym mis Gorffennaf, gan gynnig canlyniadau ein gwaith ymgynghori ar gyfer ystyriaeth.

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r cyfnod deuddeg mis o Ebrill 2017, gan gadw cyhoeddiad ein Cynllun Corfforaethol newydd mewn cof, ac mae'n esbonio sut y byddwn yn darparu cynnydd mewn perthynas â'n blaenoriaethau blaenorol.

Yn y ddogfen drosiannol hon, wedi'i ffurfio'n ddwy ran, rydym yn egluro sut y bydd unrhyw ymrwymadau sy'n weddill o'n Cynllun Corfforaethol 2012- 2017 yn cael eu rheoli, a sut y bydd gwaith i gefnogi ein blaenoriaethau

corfforaethol yn cael eu rheoli yn y dyfodol. Yn ogystal, rydym yn cynnig mewnwelediad i'r blaenoriaethau arfaethedig sydd wedi deillio o'r ymgynghoriad, er mwyn i Aelodau newydd o'r Cyngor fod yn barod i'w hystyried.

Mae perfformiad o'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei fonitro'n agos gydag adroddiadau blynyddol ar ein cynnydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Gallwch weld ein hadroddiad perfformiad blynyddol diweddaraf ar ein gwefan ar www.sirddinbych.gov.uk neu am y ddolen uniongyrchol - [cliciwch yma](#).

Yn ogystal â sicrhau ein bod yn cyflawni'r hyn a ddywedasom yn ein Cynllun Corfforaethol diweddar, a pharatoi ar gyfer Cynllun Corfforaethol newydd, byddwn yn cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddatblygu ei Amcanion Lles newydd.

Mae llawer iawn o newid wedi digwydd yn y cyngor dros y 5 mlynedd diwethaf, a dros y 5 mlynedd nesaf (hyd y Cynllun newydd), byddwn yn parhau i foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio i sicrhau ein bod wedi'n harfogi i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau. Mae'n rhaid i ni hefyd edrych ar yr heriau parhaol a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y ddeddfwriaeth newydd, yn cynnwys:

- Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Tai (Cymru) 2014

Mae'r rhain yn gosod mwy o bwyslais ar yr agenda lles na'r hyn sydd wedi bod yn flaenorol.

Ariannu ein Cynlluniau Corfforaethol

Pan gafodd y Cynllun Corfforaethol ei lansio, gosododd raglen uchelgeisiol o fuddsoddi cyfalaf mewn ysgolion, ffyrdd, gofal cymdeithasol a moderneiddio a oedd yn sail i'r blaenoriaethau a osodwyd gan y cyngor ar gyfer y tymor gweinyddol cyfredol.

Ers 2012, wrth i'r Cynllun ddatblygu, mae'r cyllid sy'n sail iddo wedi symud o ragolwg dyheadol i strategaeth gadarn a fforddiadwy. Er mwyn gwneud y Cynllun yn fforddiadwy, mae rhai diwygiadau wedi bod yn angenrheidiol, ochr yn ochr â newidiadau yn y rhagdybiaethau cynllunio.

Cyflwynwyd diweddariad o'r cynllun gerbron y Cabinet 24 Tachwedd 2015, ac fe gafodd £4.8 miliwn pellach o arian wrth gefn i gefnogi Glasdir a Chynlluniau Ysgol Carreg Emlyn (o fewn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif) ei gymeradwyo gan y Cabinet 16 Chwefror 2016.

Y gwariant disgwyledig cyfredol ar y Cynllun Corfforaethol yw £132.5 miliwn (elfen ariannu Sir Ddinbych yw £70.7 miliwn) ar gyfer y cyfnod 2011/12 hyd at 2019/20. Mae £40.3 miliwn wedi'i wario o 2011/12 i 2015/16, gyda disgwyl y bydd £20 miliwn yn cael ei wario yn 2016/17 a £22.5 miliwn yn 2017/18. Mae'r Cynllun wedi'i ariannu'n llawn i ddarparu'r prosiectau cyflawni y cytunwyd arnynt ynddo. Bydd Cynllun a strategaeth ariannu newydd yn cael eu datblygu gyda'r cyngor newydd yn ystod 2017.

Gweithgareddau Parhaus Cynllun Corfforaethol 2012 – 2017

Blaenoriaeth 1: Datblygu'r economi leol

Ar gyfer y flaenoriaeth hon rydym wedi nodi chwe chanlyniad yr ydym yn anelu i'w cyflawni ar gyfer ein cymunedau hyd at 2023, yn unol â'n Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol.

Rydym am i fusnesau lleol fynd o nerth i nerth, gan gynnig swyddi gwerth chweil, o ansawdd da, sy'n talu'n dda i'n preswylwyr; gan roi'r dulliau iddynt fwynhau ansawdd da o fywyd yn ein trefi a'n cymunedau.

Isod, mae detholiad o'r gweithgareddau rydym yn bwriadu eu cyflawni yn ystod Blwyddyn Ariannol 2017-18.

Canlyniad 1: Yr isadeiledd cywir ar gyfer twf

- Erbyn mis Mawrth 2018, bydd ein prosiect Sir Ddinbych Ddigidol wedi darparu cyngor i dros 1,500 o fusnesau lleol, ac wedi cynorthwyo mwy na 100 o fusnesau'n uniongyrchol i wneud y defnydd gorau o'r cyfathrebu digidol a symudol gwell a gyflwynir ar draws y sir. Byddwn yn canolbwyntio ein sylw ar ddyrchafu'r sir i

lefelau cysylltedd y DU, drwy nodi a chefnogi busnesau sydd heb gysylltedd band eang a ffonau symudol digonol, gyda'r bwriad o weld mwy na 80% o fusnesau'n gallu cael mynediad at fand eang cyflym iawn dros y flwyddyn hon.

- Eleni byddwn yn canolbwyntio ein sylw ar weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a phartneriaid eraill i gysylltu preswylwyr lleol â chyfleoedd swyddi, a gyflwynir gan ein gwaith Safleoedd Cyflogaeth Strategol â Blaenoriaeth.
- Bydd yr achos busnes i ehangu gofod ym Mharc Busnes Llanelwy'n cael ei gwblhau a'i ystyried er mwyn buddsoddi, er mwyn cefnogi ein gwaith i greu swyddi sy'n talu'n dda yn y sir yn y dyfodol.
- Byddwn yn hwyluso'r datblygiad o Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan, a safleoedd eraill sydd wedi'u dyrannu ar gyfer datblygu cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Canlyniad 2: Busnesau sy'n cael eu cefnogi a'u cysylltu

- Bydd ein rhaglen Mis Mawrth Menter yn canolbwyntio ar faterion a godwyd yn arolwg busnes 2017, gan helpu busnesau yn y sir i rwydweithio gyda'i gilydd a goresgyn rhwystrau i dwf, drwy ddatblygu gwybodaeth a sgiliau.
- Bydd cynllun sefydlog, llwyddiannus, Grant Datblygu Busnesau Sir Ddinbych yn parhau i gefnogi busnesau lleol bach i greu swyddi

newydd, a bydd yn denu mwy na £100,000 o fuddsoddiad sector preifat i'w gwaith ehangu.

- Bydd ein prosiect 'Gwell Busnes i Bawb' yn fusnes fel yr arfer, gan ddod â gwell darpariaeth o gefnogaeth a chyngor i fusnesau rheoledig a chydlynid gwell o ymweliadau fel gofyniad sylfaenol.
- Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Ffederasiwn Busnesau Bach, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Busnes Cymru, i ddarparu cefnogaeth i fusnesau lleol wrth werthu eu nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor.

Canlyniad 3: Cyfleoedd ar gyfer twf

- Byddwn yn gweithio gyda busnesau, Llywodraeth Cymru, Prifysgolion a darparwyr busnes, i fynd ati i hyrwyddo Parc Busnes Llanelwy fel lleoliad perffaith ar gyfer busnesau'r sector twf. Mae hyn yn cynnwys adeiladu'r achos busnes i'w ystyried, ar gyfer ehangiad ychwanegol ar y parc busnes.
- Mae gwaith i adfywio Glan y Môr y Rhyl a'i gynnig twristiaeth wedi dechrau, gan gynnwys gwaith adeiladu ar y safle a fydd yn parhau drwy 2017 ac i 2018.

Canlyniad 4: Gweithlu medrus o ansawdd uchel

- Drwy weithio ag ysgolion a busnesau lleol, byddwn yn datblygu'r gwaith a wnaed gan ein prosiect Llwybrau +, a oedd yn darparu cefnogaeth ymarferol (fel sgiliau cyfweiliad) i

bobl ifanc ar draws y sir, er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer byd gwaith cyn iddynt adael yr ysgol.

- Byddwn yn canolbwyntio'n fawr ar ddatblygu cyfleoedd prentisiaethau a phrofiad gwaith gyda'r Cyngor yn chwarae rôl arweiniol – fel cyflogwr a drwy annog cyflogwyr eraill. Bydd hyn yn cynnig ystod o gyfleoedd prentisiaethau a phrofiad gwaith i breswylwyr lleol, i wella eu llwyddiant ym myd gwaith.
- Mae rhaglen OPUS yn cefnogi unigolion sy'n naill ai'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith ers peth amser, ac sy'n awyddus i dderbyn hyfforddiant, gwirfoddoli neu weithio.
- Byddwn yn creu fframwaith datblygu proffesiynol ar gyfer staff Llyfrgelloedd/Siop Un Stop.

Canlyniad 5: Trefi a chymunedau llewyrchus

- Byddwn yn parhau i gefnogi busnesau lleol yn y Rhyl a Phrestatyn, gyda'r diddordeb y maent wedi'i ddangos mewn archwilio Ardal Gwella Busnes bosibl.
- Byddwn yn archwilio'r datblygiad o fenter 'Byw dros y Siop' sy'n bwriadu defnyddio gofod llawr segur (sy'n breswyl yn bennaf) unwaith eto, a byddwn yn parhau i ddatblygu tai cyngor newydd sy'n cynyddu cwsmeriaid ar ein strydoedd mawr.

- Byddwn yn datblygu ac yn darparu Cynllun Rheoli Cyrchfan 2017-2022 nesaf Sir Ddinbych.
- Byddwn yn ailddatblygu Llyfrgell/Siop Un Stop Llanelwy, ac yn hwyluso gweithgaredd a chyfranogiad y gymuned yn ehangach.

Canlyniad 6: Sir Ddinbych wedi'i hyrwyddo'n dda

- Rydym wedi lansio ein gwefan mewnfuddsoddi, a nawr yn datblygu'r ymgyrch i fynd ochr yn ochr â hyn.
- Byddwn yn datblygu'r Cynllun Llysgennad Twristiaeth ymhellach ar draws Sir Ddinbych, yn hyfforddi staff Llyfrgell/Siop Un Stop fel Llysgenhadon Twristiaeth.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru i hyrwyddo Blwyddyn Chwedlau Croeso Cymru.
- Byddwn yn datblygu ac yn darparu rhaglen hyfforddi cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol i staff ac aelodau etholedig.

Blaenoriaeth 2: Gwella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion

Ar gyfer y flaenoriaeth hon, fe wnaethom nodi un canlyniad a fyddai'n cefnogi ein cymunedau. Isod, mae detholiad o'r gweithgareddau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni yn ystod 2017-2018 i gefnogi'r canlyniad hwn.

Canlyniad 7: Mae myfyrwyr yn cyflawni eu potensial

- Byddwn yn moderneiddio ein rhaglen uchelgeisiol i foderneiddio ein hysgolion a chyfleusterau ein hysgolion, i sicrhau bod ein plant yn cael amgylchedd dysgu sy'n cefnogi eu haddysgu. Bydd nifer o ysgolion yn cael buddsoddiad yn eu hadeiladau yn ystod 2017/18, yn cynnwys:
 - Adnewyddu a rhoi estyniad ar Ysgol Glan Clwyd i ddal 1,180, i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Sir. Dechreuwyd defnyddio'r adeilad newydd sydd ar flaen y gad yn lonawr, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar adnewyddu'r adeilad ysgol presennol i greu amgylchedd dysgu modern, sy'n addas at y diben.

- Mae'r gwaith o ddarparu rhaglen ysgolion cynradd newydd yn ardal Rhuthun yn mynd rhagddo, gyda gwaith adeiladu ar ysgolion newydd Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras eisoes wedi dechrau, a disgwylir cwblhau hyn yn ystod gwanwyn 2018. Disgwylir y bydd yr ysgolion newydd arfaethedig ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn a Llanfair yn dechrau'n fuan yn 2018.
 - Mae gwaith wedi dechrau ar ddylunio ysgol newydd ar gyfer y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Mair yn y Rhyl. Bydd yr Ysgol Ffydd newydd hon yn darparu cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf i ddisgyblion o 3 i 16 oed, a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2019.
 - Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i nodi cynlluniau i ffurfio cyflwyniad Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer cam nesaf rhaglen ariannu Ysgolion yr 21ain Garrif (Band B).
- Drwy weithio gyda'n partneriaid, bydd ein Strategaeth Ymyrraeth ac Atal yn gwella ein rhaglen iechyd meddwl lefel isel mewn ysgolion cynradd.
 - Byddwn yn adolygu dull Sir Ddinbych yn y sector uwchradd gyda'r bwriad o ddatblygu dull addysgu a dysgu sy'n paratoi myfyrwyr yn llwyddiannus ar gyfer y Rhaglen Ryngwladol Aseu Myfyrwyr.

Blaenoriaeth 3: Gwella ein ffyrdd

Yn y flaenoriaeth hon, rydym wedi nodi un canlyniad yr ydym yn ceisio ei gyflawni i'n cymunedau. Isod, mae detholiad o'r gweithgareddau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni yn ystod 2017-18 i gefnogi'r canlyniad hwn.

Canlyniad 8: Mae gan breswylwyr ac ymwelwyr â Sir Ddinbych fynediad i rwydwaith ffyrdd sydd wedi'i reoli'n dda

- Byddwn yn gweithredu rhaglen gwella arwynebau ffyrdd ar nifer o ffyrdd blaenoriaeth uchel, mae hyn yn cynrychioli'r dull mwyaf cost effeithiol o ymestyn ar oes y ffordd, yn cynnwys:
 - Sarn Lane, Bodelwyddan
 - Marine Road East, Prestatyn
 - A525 Gate House i Ben y Stryd, Llandegla ac
 - A543 Blue Hand Corner i Ysgol Santes Ffraid, Dinbych.

Bydd hyn yn cynnwys y gwaith paratoi hanfodol fel rhoi darnau newydd ar y ffordd; bydd gwerth y rhaglen hon yn fwy na £700,000.

- Byddwn yn gweithredu rhaglen o roi darnau newydd ar y ffordd ar draws y sir, gyda'r bwriad o sicrhau bod nifer o ffyrdd wedi'u diogelu rhag gwaethygu'n fwy, a fyddai o ganlyniad yn costio llawer mwy o arian i'w trwsio. Bydd y ffyrdd penodol sydd i'w trin yn cael eu

blaenoriaethu yn unol ag asesiadau risg drwy gydol y flwyddyn, ond mae gwerth y rhaglen tua £1.3 miliwn.

- Byddwn yn darparu Blwyddyn 1 o raglen cynnal a chadw 10 mlynedd ar gyfer pontydd a strwythurau priffyrdd eraill. Nod y rhaglen hon yw lleihau'r angen i weithredu cyfyngiadau pwysau ar ein pontydd.

Blaenoriaeth 4: Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu hamddiffyn ac yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd

Ar gyfer y flaenoriaeth hon, rydym wedi nodi dau ganlyniad yr ydym yn ceisio eu cyflawni i'n cymunedau. Isod, mae detholiad o'r gweithgareddau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni yn ystod 2017-18 i gefnogi'r canlyniad hwn.

Canlyniad 9: Mae pobl ddiamddiffyn yn gallu byw mor annibynnol â phosibl

- Byddwn yn darparu rhaglen o friffio'r wasg yn rheolaidd drwy gydol 2017/18, a fydd yn amlinellu ffyrdd newydd, cadarnhaol o weithio mewn gofal cymdeithasol, gan bwysleisio'r ffocws ar ofal a chefnogaeth wedi'i hunan-reoleiddio.
- Byddwn yn gwneud y mwyaf o fuddion Pwyntiau Siarad a Gwasanaeth y Llywiwr Cymunedol, a sicrhau bod cymunedau Sir Ddinbych yn cael eu cefnogi gan adnoddau lleol i ddod yn fwy gwydn

Canlyniad 10: Mae Pobl Ddiamddiffyn wedi'u hamddiffyn

- Byddwn yn datblygu prosesau newydd i reoli Cyllidebau Cefnogi (Taliadau Uniongyrchol

gynt), i'r rhai hynny sydd angen gofal a chefnogaeth wedi'i rheoli, er mwyn cael mwy o ddewis a rheolaeth.

- Byddwn yn datblygu model ar gyfer cymryd risgiau cadarnhaol, o ran y ffordd newydd o weithio o fewn gofal cymdeithasol.
- Byddwn yn adolygu Datblygiad Polisi Rhanbarthol wrth weithio gyda phartneriaid i wella ein harferion lleol, fel Asesu, Cyllidebau Cefnogi, Cymhwysedd, Eirioli ac Ymgysylltu â Chwsmeriaid.
- Mae'r Tîm Diogelu Oedolion newydd wedi'i sefydlu bellach, ac mae modelau newydd o weithio wedi'u gweithredu. Yn 2017/18, bydd y prosesau newydd yn cael eu monitro i ystyried effeithlonrwydd arferion gwaith newydd.
- Yn ystod 2017/18, byddwn yn gweithredu'r cynnig ymhellach i gefnogi'r Rhaglen Ffoaduriaid o Syria. Yn 2016/17 fe wnaethom gefnogi dau deulu i ymgartrefu yn Sir Ddinbych, ac yn parhau i gynllunio ar gyfer mwy o deuluoedd dros y misoedd i ddod.

Blaenoriaeth 5: Strydoedd glân a thaclus

Ar gyfer y flaenoriaeth hon, rydym wedi nodi un canlyniad yr ydym yn ceisio ei gyflawni i'n cymunedau. Isod, mae detholiad o'r gweithgareddau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni yn ystod 2017-18 i gefnogi'r canlyniad hwn.

Canlyniad 11: Creu amgylchedd deniadol ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr

- Fel rhan o brosiect rheoli Cymdogaeth Gorllewin y Rhyl i ymdrin â throseddau amgylcheddol, byddwn yn canolbwyntio ar wastraff, tipio anghyfreithlon, baw cŵn a thir blêr.
- Byddwn yn gweithredu Gorchymyn Rheoli Cŵn i ddylanwadu ar y perchnogion anghyfrifol hynny i reoli eu cŵn a sicrhau bod yr ardaloedd lle mae baw cŵn yn peri risg, fel meysydd chwarae, yn cael eu diogelu.
- Byddwn yn dechrau adolygu a datblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- Byddwn yn gweithredu'r Cynllun Trwsio Grŵp yn Mill Bank Road, y Rhyl, i adnewyddu'r bloc allanol o eiddo.
- Byddwn yn dymchwel adeiladau peryglus yn Queen Street, y Rhyl ac yn adnewyddu 57 – 59 Queen Street, y Rhyl, drwy ddisodli'r ffenestr flaen ac adnewyddu'r fflatiau uwchben y siop.

- Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen adnewyddu ar gyfer naw o'n Cyfleustodau Cyhoeddus drwy gydol 2017/18.

Blaenoriaeth 6: Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da

Ar gyfer y flaenoriaeth hon, rydym wedi nodi un canlyniad yr ydym yn ceisio ei gyflawni i'n cymunedau. Isod, mae detholiad o'r gweithgareddau yr ydym yn bwriadu eu cyflawni yn ystod 2017-18 i gefnogi'r canlyniad hwn.

Canlyniad 12: Bydd ein marchnad dai yn cynnig ystod o fathau a ffurfiau o dai a bydd digon ohonynt i ddiwallu anghenion unigolion a theuluoedd

- Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn tai newydd, drwy brynu mwy o dir ar gyfer datblygiad ledled y sir, yn cynnwys gwaith ym Mhrestatyn ar y tai Cyngor newydd cyntaf i'w hadeiladu gan y Cyngor Sir.
- Byddwn yn cwblhau'r gwaith o adnewyddu'r eiddo rydym wedi'u prynu yn y Rhyl, i ddarparu tai fforddiadwy.
- Bydd ein Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid yn cael ei darparu yn 2017, gyda'n Llawlyfr Tenantiaid, a fydd yn cynyddu ein hymgysylltiad yn sylweddol, ac yn gwneud y gorau o allu ein cymunedau i ddod yn fwy hunan-ddibynnol.
- Byddwn yn gwella 69 eiddo ar draws sawl stad yn y Rhyl, a 61 eiddo yn Rhuthun a Llangollen,

yn disodli toi, rendro a deunyddiau llinell
doeau, yn ogystal â gwelliannau
amgylcheddol fel ffensio a llwybrau lle bo
angen.

- Byddwn yn cyflwyno gwasanaeth Un Llwybr Mynediad at Dai yn Ebrill 2017, sy'n bartneriaeth rhwng y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, i ddal un rhestr aros ar gyfer mynediad at dai cymdeithasol yn yr ardal.
- Byddwn yn darparu Prosiectau Gofod Gwyrdd Mewn Tai yn Aberchwiler, Bodfari a Rhuddlan, i wella llefydd parcio ceir a'r strydwedd gyffredinol yn ystod gwanwyn 2017.
- Byddwn yn darparu dull strategol wedi'i gytuno arno, ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych, drwy barhau i weithio gyda datblygwyr, Cymdeithasau Tai a phartneriaid eraill i ddatblygu cynlluniau ar gyfer tri Chynllun Gofal Ychwanegol arall. Rydym yn disgwyl y bydd o leiaf dau gynllun wedi'u datblygu erbyn 2018.
- Rydym yn cefnogi darpariaeth llefydd priodol i safleoedd preswyl a theithiol Sipsiwn a Theithwyr.
- Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi Cynllun Darparu Cartrefi Gwag y Cyngor, a dod ag o leiaf 5 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel tai fforddiadwy erbyn Rhagfyr 2017.

Blaenoriaeth 7: Moderneiddio'r cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid

Ar gyfer y flaenoriaeth hon, rydym wedi nodi dau ganlyniad yr ydym yn ceisio eu cyflawni i'n cymunedau. Isod, mae detholiad o'r gweithgareddau rydym yn bwriadu eu cyflawni yn ystod 2017-18.

Canlyniad 13: Bydd Gwasanaethau yn parhau i ddatblygu a gwella

- Byddwn yn parhau i gynnwys Safonau'r Iaith Gymraeg yn ein holl weithgareddau a gwaith, i hyrwyddo a gwella ein Diwylliant Cymreig.
- Byddwn yn adleoli Swyddfa Gofrestru'r Rhyl i Neuadd y Dref, y Rhyl, erbyn Awst 2017, i wella mynediad at wasanaethau cofrestru genedigaethau, priodasau a marwolaethau.
- Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein Canolfannau Hamdden gyda gwefan newydd, sydd â system archebu ar-lein a chiosgau mynediad cyflym.

- Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu fframwaith ar gyfer cyfleoedd gwirfoddoli yn ein Llyfrgelloedd/Siopau Un Stop.
- Byddwn yn datblygu Rhaglen Dyfodol Digidol ac yn archwilio cyfleoedd ar gyfer digideiddio gwasanaethau.

Canlyniad 14: Gweithlu mwy hyblyg ac effeithiol wedi'u cefnogi gan isadeiledd cost effeithlon

- Byddwn yn moderneiddio'r gwasanaeth Arlwy Ysgolion gydag isadeiledd TGCh i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon.
- Byddwn yn cefnogi'r Aelodau newydd i ymgysylltu â'u rôl, a chwarae rôl effeithiol, ac i ehangu ar enw da'r Cyngor.
- Byddwn yn datblygu cynnig newydd ar gyfer prentisiaethau, i gyfateb sgiliau â swyddi gyda chyfleoedd datblygu gyrfa.
- Byddwn yn parhau i reoli absenoldeb salwch yn agos.

Gweithgareddau wedi'u datblygu ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2017 – 2022

Bydd 2017 yn gweld Cyngor newydd yn cael ei ethol, a Chynllun Corfforaethol newydd yn cael ei ddatblygu gyda'r Cyngor newydd hwn.

Mae'r ymchwil a'r ymgysylltiad sydd ynghlwm wrth ddatblygu Cynllun - er mwyn bod mor sicr â phosibl ein bod yn gwneud y pethau iawn - yn sylweddol, a dechreuodd yng Ngorffennaf 2016 gyda lansiad Cam 1 o Sgwrs y Sir. Yma, fe wnaethom holi pobl i feddwl am y dyheadau ar gyfer eu cymunedau yn y dyfodol, o ran iechyd, yr economi, yr amgylchedd ac ati. Cyflwynwyd y canfyddiadau o hwn i'n Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet yn Nhachwedd 2017, ynghyd ag ystadegau am y sir, a chytunwyd ar gyfres o Amcanion Lles drafft.

Ymgynghorwyd ymhellach ar yr amcanion drafft hyn rhwng dechrau Rhagfyr 2016 a diwedd Ionawr 2017. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd sicrhau bod y cyhoedd yn cytuno bod yr amcanion a ddewiswyd yn adlewyrchu dyheadau'r cymunedau'n gywir, a hefyd i roi rhagor o gyfle i wneud awgrymiadau gwahanol.

Ystyriwyd bod pob un o'r amcanion drafft yn bwysig, rhai yn fwy nag eraill, ac fe gawsant eu mabwysiadu yn y Cabinet 28 Chwefror 2017. Dyma'r amcanion:

- Mae Sir Ddinbych yn fan lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a lle bydd ganddynt y sgiliau i wneud hynny.
- Mae cymunedau wedi eu cysylltu a mynediad at nwyddau a gwasanaethau lleol, ar-lein neu drwy gysylltiadau trafnidiaeth da.
- Mae yna amgylchedd deniadol a warchodir sy'n cefnogi lles cymunedau a ffyniant economaidd.
- Gall pobl fyw bywydau annibynnol a chyflawn mewn cymunedau cryf, gofalgarg, diogel a gwydn.
- Mae'r Cyngor a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i oresgyn heriau; gan ddyfeisio a darparu atebion ar y cyd.
- Mae yna ddigwyddiadau sy'n dod â phobl at ei gilydd, gan greu cymunedau gweithgar a helpu busnesau i ffynnu.

Wrth symud ymlaen, mae Pennaeth Gwasanaeth wedi'i enwebu i arwain ar bob amcan, a bydd yn cynnal gweithdy cydweithredu gyda budd-ddeiliaid mewnol ac allanol sy'n cael gwahoddiad, er mwyn cytuno ar y canlynol ar gyfer bob amcan:

1. Meini prawf llwyddiant

2. Beth sydd yn ei le yn barod
3. Cynhyrchu rhagor o syniadau.

Bydd detholiad o'r syniadau hyn yn cael eu cyflwyno i'n Cyngor newydd yng Ngorffennaf, fel y gallant werthuso a chefnogi'r amcanion lles hyn ymhellach. Unwaith y cânt gefnogaeth, gallwn eu mabwysiadu'n ffurfiol fel ein blaenoriaethau corfforaethol newydd.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth yn y llyfryn hwn

Mae croeso i chi gysylltu â ni. Byddem yn falch o gael darparu canllawiau a deunyddiau ychwanegol i'ch helpu chi.



Dewch draw i'n gweld ni: Dewch o hyd i un o swyddfeydd y Cynfor neu Siop un Stop www.sirddinbych.gov.uk



Arlein: Ffurflen Ymholiadau Cyffredinol - www.sirddinbych.gov.uk



Ffoniwch ni: 01824 706101 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am tan 5pm). Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg.



Ysgrifennwch atom: Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ.



Siaradwch â'ch cyngorydd: Dewch o hyd i'ch cyngorydd www.sirddinbych.gov.uk



Chwiliwch amdanom ni ar y cyfryngau cymdeithasol!